# Neges diwedd wythnos

## 10.07.26

**Croeso i'n cylchlythyr wythnosol, yma fe welwch chi gipolwg o'r wythnos ynghyd â negeseuon dathlu a dyddiadau ar gyfer eich dyddiadur.**

## Presenoldeb

**Targed presenoldeb yr ysgol: 95.01%**

**Presenoldeb yr ysgol: 95.36%**




| Attendance | Days Absent | Weeks Absent | Lessons Missed |
|---|---|---|---|
| 95% | 9.5 | 1.9 | 48 |
| 90% | 19 | 3.8 | 95 |
| 85% | 28.5 | 5.7 | 143 |
| 80% | 38 | 7.6 | 190 |
| 75% | 47.5 | 9.5 | 238 |
| 70% | 57 | 11.4 | 285 |
| 65% | 66.5 | 13.3 | 333 |

## Y Cwestiwn Mawr

Ein cwestiwn mawr am y bythefnos nesaf...

**Sut mae yfed dŵr yn helpu i gadw ein cyrff yn oer ar ddiwrnod poeth?**



Erthygl 36 – Dylech gael eich diogelu rhag gwneud pethau a allai eich niweidio.

# Gwasanaeth Ffarwelio Bl.6

Ar Ddydd Mercher, cynhaliwyd Gwasanaeth Ffarwelio hyfryd i ddisgyblion Blwyddyn 6 wrth iddynt baratoi ar gyfer cam nesaf eu taith addysgol. Roedd y gwasanaeth yn llawn atgofion hapus, myfyrio a balchder wrth inni gydnabod eu llwyddiannau a'u cyfraniad i fywyd yr ysgol. Yn dilyn y gwasanaeth, croesawodd y plant eu teuluoedd i de prynhawn arbennig yr oeddent wedi helpu i'w baratoi eu hunain. Roedd yn gyfle gwych i bawb ddod ynghyd i ddathlu eu hamser yn Ysgol Hafan Y Môr ac i ddymuno pob llwyddiant iddynt ar gyfer y dyfodol.



# Noson Gwersylla Bl.6



Nos Iau, mwynhaodd disgyblion Blwyddyn 6 brofiad gwersylla gwych i nodi diwedd eu hamser yn Ysgol Hafan Y Môr. Dechreuodd y noson gyda physgod a sglodion ar y traeth ar ôl gweithio gyda'i gilydd i godi eu pebyll eu hunain. Wrth i'r haul fachlud, treuliodd y plant amser yn chwarae gemau, tostio malws melys ac yn mwynhau llawer o chwerthin gyda'u ffrindiau. Roedd yn noson arbennig yn llawn hwyl, cyfeillgarwch ac atgofion parhaol, gan roi diwedd perffaith i'w taith yn yr ysgol gynradd.

# Picnic ar y traeth

Ar Ddydd Gwener 10.07.26, mwynhaodd yr ysgol gyfan Ddiwrnod Picnic ar y Traeth, gan ddod â phawb ynghyd i ddathlu blwyddyn lwyddiannus arall yn Ysgol Hafan Y Môr. Treuliodd y disgyblion a'r staff y dydd wrth lan y môr, yn mwynhau picnic, yn chwarae gemau ac yn gwneud y gorau o'r amgylchedd hyfryd o'u cwmpas. Roedd yn gyfle gwych i blant o bob oed gael hwyl, cryfhau cyfeillgarwch a chreu atgofion arbennig gyda'i gilydd.




# Wythnos Nesaf

| | |
|---|---|
| Dydd Llun- 13.07.26 | • Gwersi Pres<br>• Gwersi Chwythbrennau<br>• Gwersi Sielo<br>• Gwersi Ffidil<br>• Gwersi Gitar<br>• Nofio - Bl.2 |
| Dydd Mawrth - 14.07.26 | • Addysg Gorfforol Bl 3-6.<br>• Clwb Chwaraeon ar ôl ysgol Bl 3-6 - 3.15yp - 4.15yp |
| Dydd Mercher - 15.07.26 | • Mercher Mwdlyd - Meithrin - Bl.2<br>• Dim - Clwb Codio/Rhifedd - Bl.3-6<br>• Dim - Clwb Perfformio - Bl.3-6<br>• Diwrnod Hwyl Bl.6 |
| Dydd Iau - 16.07.26 | • Addysg Gorfforol i Meithin - Bl 2<br>• Clwb Chwaraeon ar ôl ysgol i flynyddoedd 1 a 2 - 3.15yp - 4.15yp<br>• Dim - Clwb Pêl Rwyd - Bl.4 a 5 - 3.15yp - 4.15yp |
| Dydd Gwener - 17.07.26 | • Diwrnod olaf y tymor - Gwyliau haf hapus i bawb! |

http://www.ysgolhafanymor.cymru/home/calendar/

**Please use the link above to view future dates. This is the best way for parents to see dates and what is happening at school.**

## Absenoldebau

Gweler isod y ddolen ar gyfer y ffurflen gais am absenoldeb. Gofynnwn yn garedig i chi gwblhau'r ffurflen hon os yw'ch plentyn/plant yn absennol.

https://docs.google.com/forms/d/15ZT3HRC9HMgkVjIrtDvpYQstpfMnPnli4zpoqxGUBSQ/edit

## Meddygaeth

**Gweler isod y ddolen ar gyfer y ffurflen meddygaeth. Gofynnwn yn garedig i chi gwblhau'r ffurflen hon os yw'ch plentyn/plant angen meddygaeth yn yr ysgol.**

https://forms.gle/SgryLRHGLaEQp9qm9

## Gwybodaeth Ychwanegol

**Gwybodaeth am ddyddiadau gwyliau a diwrnodau HMS (diwrnodau cau ysgolion). Sylwch fod y rhain wedi'u diweddaru ac ar galendr gwefan yr ysgol.**

http://www.ysgolhafanymor.cymru/home/calendar/

Gwyliau’r Haf 20.07.2026 – 31.08.2026

**TYWYDD GARW**

**Hoffwn atgoffa pob rhiant o'r gweithdrefnau ar gyfer tywydd garw a chau ysgolion. Mae diweddariadau yn ymwneud â chau ysgolion neu rybuddion eraill i'w gweld ar y tudalennau canlynol**

www.pembrokeshire.gov.uk/alerts

**Gallwch gofrestru ar gyfer rhybuddion drwy greu eich cyfrif eich hun drwy ddefnyddio'r cyfeiriad gwe canlynol:**

https://myaccount.pembrokeshire.gov.uk/

**Bydd tudalennau Trydar a Facebook y Cyngor hefyd yn cael eu diweddaru gyda rhybuddion:**

www.facebook.com/PembrokeshireCountyCouncil

www.twitter.com/Pembrokeshire